

Cyngor Cymuned Llanycil.

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Chwefror 10fed 2015 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Jean Roberts (Cadeiryddes), Euros Puw, Gwynedd Jones, Gwilym Davies, Rhys Richards, Geraint Jones, Arwel Davies, Geraint Davies, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynfryn Williams

Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, a chafwyd hwy yn gywir.

Materion vn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Ysgol Y Parc.

Cafwyd adroddiad o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod yn yr Henblas ym mis Ionawr. Yn dilyn y cyfarfod roedd y clerc wedi derbyn y dogfennau gwerthiant ac roedd wedi pasio copïau ymlaen i'r cynghorwyr. Cytunwyd i arwyddo'r dogfennau gwerthiant a symud ymlaen i arwyddo'r ddogfen les rhwng y Cyngor Cymuned a Phwyllgor y Neuadd pan fydd yn barod

Cyn clerc yn dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Sam Jones am y cerdyn pen-blwydd a dderbyniodd gan y Cyngor.

Llwybr troed rhwng Tegfan a Gwernydd, Parc.

Derbyniwyd cadarnhad y bydd y llwybr yn derbyn toriad ychwanegol o fis Ebrill ymlaen.

Ymateb i'r cwynion a anfonwyd i Cyngor Gwynedd.

Ffens diogelwch ar y A4212 ger Rhydyfen.

Yn dilyn ein llythyr yn gofyn a oedd unrhyw ddatblygiad yn y cynllun i gael rhwystrau diogelwch cafwyd cadarnhad eu bod wedi bod yn aflwyddiannus i ddenu arian gan y Llywodraeth ar gyfer y cynllun. Byddant yn parhau i geisio am yr arian, gan obeithio y byddent yn llwyddiannus yn y dyfodol agos.

Arwyddion blaenoriaeth ar bont Ffrydan-uchaf ger Fedw Arian.

Cafwyd cadarnhad nad oedd y safle yn gymwys am y sustem blaenoriaeth gan nad oedd y gwelededd yn gyfyngedig. Nid oedd y Cyngor yn cytuno gyda'r sylwadau felly gofynnwyd i'r clerc drefnu cyfarfod gyda'r swyddog a'r cynghorwyr ar y safle i drafod y mater. Cytunodd Geraint Davies a'r Cyng. Elwyn Edwards fod yn bresennol.

Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Partneriaeth Penllyn / Cwmni Pum Plwy Penllyn

- i) Derbyniwyd braslun o'r hyn a drafodwyd yn eu cyfarfod diwethaf.
- ii) Derbyniwyd copi o'r cytundeb gwasanaethau blynyddol rhwng y Bartneriaeth a Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i'w arwyddo.

b) Un Llais Cymru

- i) Derbyniwyd copi o'r diweddariadau i benodau 'Llywodraethant ac atebolrwydd i gynghorau lleol yng Nghymru'.
- ii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â phenodi Cadeirydd ac Aelodau i Fforwm yr Ucheldir.
- iii) Derbyniwyd copi o ymatebion Un Llais Cymru i ymgynghoriadau materion cynllunio cenedlaethol.
- iv) Llythyr yn ein hysbysu bod cyfarfod nesaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn cael ei gynnal yn y Pafiliwn Criced, Dolgellau ar y 11/02/15.

c) Llywodraeth Cymru.

- i) Derbyniwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar y 'Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol'. Cytunwyd i ddarllen yr wybodaeth a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth.
- ii) Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn ar 'Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol'. Cytunwyd i ddarllen yr wybodaeth a'i drafod yn y cyfarfod ym mis Mawrth. Cafwyd gwahoddiad hefyd i

fynychu cyfarfod a gynhelir yn yr Henblas, Nos Lun 9fed o Fawrth gydag Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cyng. Dyfed Edwards i drafod oblygiadau'r papur gwyn i Gynghorau Cymuned a Thref. Cytunodd y gadeiryddes a'r clerc fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.

ch) Amrywiol

i) Heddlu Gogledd Cymru - Derbyniwyd neges i atgoffa'r cyhoedd bod angen trefnu i adnewyddu eu trwyddedau gwn neu ddryll tanio mewn digon o amser eleni.

iii) Fforwm Trosedd ac Anrhefn - Derbyniwyd gwahoddiad i'r cyfarfod, 26/02/15 yng Nghanolfan yr Henblas.

Ceisiadau Cynllunio.

Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol a chytunwyd i'w cefnogi:-

NP5/72/53F – Codi adeilad amaethyddol, gweithdy a storfa. Rhyd Lechog, Frongoch.

Derbyniwyd cadarnhad bod y ceisiadau canlynol wedi cael eu caniatáu:-

NP5/72/224A - Cais Adran 73 i ddiddymu amodau mewn perthynas â gofynion 'Cod Cartrefi Cynaliadwy'. Frongain, Maesywaen.

N5/72/LB92B – Caniatâd Adeilad Rhestredig i gadw newidiadau mewnol ac allanol a gyflawnwyd heb ganiatâd. Rafel, Parc.

Materion Ariannol.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

i) John Roberts (archwilydd mewnol)

ii) Un Llais Cymru (Tal Aelodaeth)

Derbyniwyd ceisiadau ariannol gan Cantref, Ambiwylans Awyr, Sioe Ardal Maesywaen, Cylch Meithrin/Ti a Fi Maesywaen, Clwb Hwyl Maesywaen, Apêl Llwybrau Eglwys Llanycil. Cytunwyd i'w trafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

Materion Lleol.

Safle biniau ger Pant Neuadd, Parc.

Gofynnwyd i'r clerc hysbysu Cyngor Gwynedd bod y biniau heb gael eu gwagu yn ddiweddar gan achosi i'r sbwriel chwalu o gwmpas y caeau gerllaw.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 10fed yn Neuadd Maesywaen am 8.00y.h.